Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

27 Chwefror 2020

Annwyl Eluned,

Cytundebau rhyngwladol a ystyriwyd ar 10 Chwefror 2020

Yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2020, ystyriodd y Pwyllgor Materion Allanol y cytundebau rhyngwladol a ganlyn:

- y cytundeb sy'n sefydlu Cymdeithas rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Moroco;
- y cytundeb sy'n sefydlu Cymdeithas rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gwlad yr Iorddonen;
- y cytundeb sy'n sefydlu Cymdeithas rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Kosovo; a'r
- Cytundeb Partneriaeth a Chydweithredu rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Uzbekistan.

Ar ôl ystyried y cytundebau hyn, cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ragor o wybodaeth gennych chi am lefel y cysylltiad a gafodd Llywodraeth Cymru yn ystod y broses o drafod cytundebau Moroco, Gwlad yr Iorddonen a Kosovo.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ofyn am eich barn ar y cysylltiad y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei gael wrth drafod unrhyw gytundebau Cymdeithasau yn y dyfodol y bwriedir eu trosglwyddo fel rhan o'r Rhaglen Parhad Cytundeb Masnach.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
0300 200 6565

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb i gais y Pwyllgor.

Yn gywir,



David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.